ARHOLIADAU SEMESTER DAU, 2025/26

ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG

CT20520 Cyfraith Troseddol

Amser: **2 AWR**

Atebwch UN cwestiwn

Mae ymgeiswyr yn cael mynd ag un ddalen A4 o nodiadau (ar y ddwy ochr) YN OGYSTAL Â chopi glân, heb ei farcio, o *Blackstone's Criminal Law Statutes* (unrhyw argraffiad) i mewn i'r arholiad. Yn ystod yr arholiad, PEIDIWCH â marcio unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ganiatáu yn yr arholiad. NID YW llyfrau llyfrgell yn cael eu caniatáu. Cewch ddefnyddio papurau gludiog 'post-it' heb eu marcio i gadw tudalennau yn y llyfr statudau.

Cofiwch y bydd yr arholwyr yn rhoi pwysigrwydd neilltuol ar ba mor berthnasol yw'ch ateb i'r cwestiwn PENODOL a ofynnwyd. Felly, ni roddir marciau am ddeunydd amherthnasol.

Pa gwestiwn bynnag y dewiswch ei ateb, *rhaid* i chi gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a/neu gyfraith achosion, fel y bo'n briodol. (Yr un faint o farciau sydd ar gael i bob cwestiwn.)
Nodwch yn glir pa gwestiynau rydych yn eu hateb.

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN GYMRAEG NEU YN SAESNEG

Ar ôl eistedd, DIM OND tudalen flaen y llyfr/llyfrau atebion a'r papur presenoldeb y mae myfyrwyr yn cael eu llenwi.

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR ARHOLIAD DROSODD TAN Y DYWEDIR WRTHYCH AM WNEUD HYNNY.

1. 'Byrbwylltra gwrthrychol... byrbwylltra goddrychol... maent yr un peth yn y bôn, ac maent yn arwain at yr un canlyniad o ran penderfynu ynghylch *mens rea* diffynnydd.'

Cloriannwch gywirdeb y datganiad hwn yn feirniadol. [100%]

2. Mae Carl yn gogydd proffesiynol sydd wedi cael diagnosis o anhwylder cwsg difrifol yn ddiweddar. Mae ei feddyg yn ei rybuddio y gallai hyn arwain at byliau o "drais wrth gerdded yn ei gwsg", ond un noson mae Carl yn anghofio cymryd y feddyginiaeth a gafodd ar bresgripsiwn.

Tra oedd yn cysgu'n drwm yn ei fflat, mae Carl yn codi o'i wely, yn cerdded i mewn i'r gegin, ac yn codi cyllell gerfio. Mae'n credu ei fod yn ôl yn y gwaith yn sleisio llysiau. Mae ei gyd-letywr yn dod i mewn i'r gegin. Mae Carl, sy'n dal i gysgu, yn chwifio'r gyllell ac yn trywanu ei gyd-letywr.

Trafodwch yn feirniadol a allai Carl ddibynnu ar awtomatiaeth fel amddiffyniad ai peidio. [100%]

3. Mae Alan a Bill yn gydweithwyr. Mae Alan yn gweithio wrth ei ddesg ac yn gwisgo clustffonau canslo sŵn. Mae Bill eisiau rhoi braw i Alan, felly mae'n sleifio i fyny y tu ôl iddo ac yn sefyll yn hollol lonydd, fodfeddi o'i glust, yn ddal styffylwr uwch ei ben. Nid yw'n dweud gair. Mae Alan yn digwydd gweld adlewyrchiad Bill yn y monitor, mae'n sylweddoli ei fod yn barod i daro, ac mae'n rhewi mewn dychryn, yn ofni ei fod ar fin cael ei daro.

Mae Alan yn penderfynu dial ar Bill. Mae'n gwybod bod Bill ar fin eistedd i lawr. Wrth i Bill ddechrau ei ostwng ei hun i mewn i'w gadair, mae Alan yn cicio coesau'r gadair yn sydyn, gan achosi i'r gadair ddymchwel. Mae Bill yn disgyn i'r llawr.

Rhowch drafodaeth feirniadol ar atebolrwydd troseddol posibl Alan a Bill am ymosodiad a/neu guro.

[100%]

DIWEDD Y PAPUR